

RHEOLWR RHWYDWAITH BFI CYMRU

GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae Ffilm Cymru Wales yn ymroi i gefnogi twf cynaliadwy yn sector ffilm Cymru a gwella mynediad i fyd ffilm a'i fanteision i bobl Cymru. Gweithiwn ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, gan gefnogi gwaith datblygu ffilmiau, cynhyrchu, sinemâu, gwyliau ffilm ac addysg ffilm a'r cyfryngau, a chynig cyngor, cyllid, datblygu sgiliau ac eiriolaeth.

O ran ymagwedd gyffredinol ein cwmni, anogwn wneuthurwyr ffilm i brofi a phrototeipio eu syniadau, cydweithio â diwydiannau creadigol eraill, a chysylltu â'u cynulleidfaoedd ar y camau cynharaf wrth ddatblygu eu prosiect. Ac yn ganolog i'n holl waith mae ein hymrwymiad i gynhwysiant: hyrwyddwn a chefnogwn gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau a gweithiwn yn frwdfrydig at dargedau sy'n adlewyrchu ein cenedl ddwyieithog.

Mae RHWYDWAITH Cymru yn gweithredu oddi mewn i dîm Datblygu, Cynhyrchu a Sgiliau Ffilm Cymru Wales, yn nodi a chefnogi talent addawol, yn arbennig awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr, gan weithio hefyd â rhwydweithiau talent eraill sy'n cael eu hariannu gan y BFI ledled y Deyrnas Unedig a chyda Gweithrediaeth y BFI yn ganolog.

Mae RHWYDWAITH BFI Cymru yn darparu amrywiaeth o fentrau cymorth i dalent newydd ac addawol sydd wedi'u geni neu sy'n seiliedig yng Nghymru, gan gynnwys:

Cymorthfeydd talent rheolaidd ledled Cymru

Cynllun ffilmiau byr blynyddol (Beacons)

Cyllid at gamau cynnar datblygu prosiect ffilm hir neu ddatblygu gyrfa (Gorwelion)

Cyllid i grwpiau / rhwydweithiau cymheiriaid yng Nghymru sy'n ymwneud â ffilm

Digwyddiadau a mentrau hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb i fylchau sgiliau neu sy'n cynorthwyo grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

I gael mwy o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales cymerwch olwg ar [ein gwefan](#) a'n [Hadroddiadau Blynyddol](#).

PRIF DDIBEN Y SWYDD

Bydd Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru yn arwain ar gyflawni ein mentrau talent sydd wedi'u hariannu gan y BFI, i rai sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol at gynnal ein llechen gyfredol o brosiectau Rhwydwaith, bydd deiliad y swydd yn rheoli'n strategol y gwaith o ddatblygu'r hyn sydd gan ein Rhwydwaith i gynnig; yn gweithio gyda gweddill yr adran i gyfeirio talent at y cymorth mwyaf priodol, ac yn nodi a theilwra cymorth i awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio i'r Pennaeth Cynhyrchu ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y cwmni, yn ogystal â chydweithwyr Rhwydwaith BFI ledled y Deyrnas Unedig.

Mae dwy swydd yn nhîm creadigol Ffilm Cymru yn gweithio i gynorthwyo Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru, ill dau ar sail ran amser: Swyddog Datblygu a Swyddog Gweinyddol yr adran. Mae hyn yn cynnig cymorth gweinyddol a logisteg, yn ogystal â chymorth allgymorth talent a phrosiectau, fel a ddirprwyir.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Gan weithio i'r Pennaeth Cynhyrchu yn Ffilm Cymru Wales, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am:

- Rheoli mentrau cymorth RHWYDWAITH BFI Cymru ar gyfer talent newydd ac addawol yn unol â'r manylion uchod, gan gynnwys trosolwg o fentrau hyfforddiant presennol megis Y Labordy (hyfforddiant dan fentoriaeth i dalent sy'n gweithio yn y Gymraeg).
- Rheoli'r gyllideb a ddyrannwyd gan y BFI ac adrodd ar hynny, ac ysgogi cyllid ychwanegol lle y bo'n briodol drwy adeiladu partneriaethau.
- Asesu ceisiadau am gyllid a chyfleoedd RHWYDWAITH (ar y cyd â staff perthnasol Ffilm Cymru Wales) a goruchwyllo'r broses geisiadau, gan sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n gywir a phrydlon.
- Darparu adborth creadigol a strategol i'r talent ar lechen RHWYDWAITH BFI Cymru neu hwyluso ei ddarpariaeth drwy olygyddion neu ymgynghorwyr sgript.
- Datblygu'r talent ar lechen RHWYDWAITH drwy nodi mentoriaid, partneriaid a chyllidwyr addas a hyrwyddo'r talent hynny i gynrychiolwyr eraill RHWYDWAITH BFI ac i'r diwydiant yn ehangach.
- Dylunio a chyflawni hyfforddiant a digwyddiadau ychwanegol lle mae galw clir ac adnoddau'n caniatáu, gan weithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i gipio'r dysgu (er enghraifft, drwy ffilmio sesiynau neu adnoddau).
- Darganfod gwneuthurwyr ffilm newydd ac addawol yng Nghymru a chynnig cyngor, gyda chymorth y Swyddog Datblygu.
- Cynrychioli RHWYDWAITH BFI Cymru yn nigwyddiadau'r diwydiant a digwyddiadau cymunedol yn y Deyrnas Unedig a thramor, fel sy'n briodol.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill y gallai fod eu hangen yn rhesymol.

MANYLEB Y PERSON

A chithau ag angerdd am gynorthwyo gwneuthurwyr ffilm newydd ac addawol i ddatblygu eu gyrfaedd, fe fyddwch yn meddu ar y canlynol:

- Profiad y gellir ei ddangos o weithio gyda thalent creadigol ac o gynorthwyo i ddatblygu gwaith creadigol;
- Crafter creadigol a masnachol a sgiliau cyfathrebu rhagorol;
- Sgiliau rheoli prosiect blaenorol;
- Ymwybyddiaeth y mae modd ei ddangos o gynhwysiant y sector creadigol i adlewyrchu'r genedl yr ydym yn byw ynddi, ac ymrwymiad i wella'r cynhwysiant hwn;
- Perthnasoedd cyfredol a pherthnasol yn y diwydiannau ffilm a chreadigol/diwylliannol ar lefel ranbarthol, genedlaethol a/neu ryngwladol;
- Ymwybyddiaeth o dueddiadau a chwaraewyr allweddol yn y diwydiant;
- Galluoedd amlwg o ran adeiladu partneriaethau a rheoli cyllideb;
- Y gallu i reoli eich dyddiadur, eich gohebiaeth a'ch teithio eich hunain;
- Mae bod yn ddwyieithog – Cymraeg/Saesneg – yn ddymunol ond nid yw'n ofynnol.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwmo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y sector ffilm a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac ymgymryd â'r ymrwymiad hwnnw mewn perthynas â'n harferion recriwtio a staffio.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, ein Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gweld fan hyn: <http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/amdanom-ni/polisiau>

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai pob ymgeisydd hefyd lenwi ein ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fan hyn: <https://www.surveymonkey.co.uk/r/FcWCareers1819>

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw elfen o'ch data personol gyda thrydydd partïon. Caiff y wybodaeth a ddarperwch ei gwneud yn ddiennw a'i phrosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff data ceisiadau eu cadw am 1 flwyddyn ac wedyn ei ddinstrio'n ddiogel, gan gadw dadansoddiad wedi'i gydgrynhoi yn unig nad yw'n cynnwys manylion personol. I gael mwy o wybodaeth ar sut rydym yn prosesu data, gweler ein Polisi Preifatrwydd fan hyn: <http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/amdanom-ni/polisiau>

Ceisiadau / Dyddiad Cau

Anfonwch eich CV ynghyd ag e-bost eglurhaol yn amlinellu eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i fanylu uchod, pam fod gennych ddi-ddordeb yn y rôl a phryd fydddech ar gael i gychwyn.

Dylai'r ceisiadau gael eu cyfeirio at Sion Eirug a'u hanfon i: sion@ffilmcymruwales.com.
Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw **5pm** ar **Ddydd Iau 28^{ain} Tachwedd 2019**.

Caiff cyfweiliadau eu cynnal ar 6ed Rhagfyr yn swyddfa Ffilm Cymru yng Nghaerdydd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â dod i'r cyfweiliad.

Fel defnyddwyr y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rydym yn sicrhau y byddwn yn cyfweld â phob ymgeisydd anabl sy'n byw ag anabledd ac sy'n cyflawni manyleb y person. Gan fod y llythyr cais a'r ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu gwahanu'n syth, gofynnwn i chi roi gwybod i ni yng nghorff e-bost eglurhaol eich cais os ydych yn ystyried eich bod yn byw ag anabledd.

